



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**Adolygiad o ddarparu
gwasanaethau gofal brys
ac argyfwng yn ystod
gaeaf 2018/19**

Cynnwys

Crynodeb	1
Cyflwyniad	6
Heriau'n ymwneud yn benodol â'r gaeaf	7
Darpariaeth a pherfformiad	10
Gweithgarwch, cyflenwad a llif	12
Model cenedlaethol i gynllunio a darparu ar gyfer y gaeaf	15
Themâu allweddol ar gyfer gaeaf 2019/20	20

Roedd Gaeaf 2018/19 yn llai heriol, ond parhaodd y system i fod dan bwysau ac mae wedi cymryd mwy o amser i adfer

Mae gwasanaethau gofal brys ac argyfwng wedi bod dan bwysau ers peth amser, ac mae'r her i'w cyflawni'n dwysáu yn ystod y gaeaf (Rhagfyr – Mawrth). Gall tywydd oerach a nifer yr achosion o'r fflw a chlefydau heintus eraill roi staff rheng flaen dan bwysau ychwanegol ac – ar brydiau – gall effeithio ar brofiad y claf a'r gallu i ddarparu gwasanaethau prydol, yn ogystal ag effeithio ar lesiant y staff.

Roedd Gaeaf 2018/19 yn fwynach ac ni fu mor arw â'r gaeaf blaenorol; er, parhaodd lefelau gweithgarwch gwasanaethau allweddol i fod yn uchel ar adegau allweddol yn ystod y tymor.

Cafwyd cynnydd yn nifer yr achosion o salwch anadlol aciwt a salwch gastroberfeddol a gofnodwyd mewn ysbytai. Roedd achosion o'r fflw yn is na'r lefelau uchaf a gofnodwyd yn ystod y gaeaf blaenorol, ond cyraeddasant lefelau 'dwysedd canolig' yn ystod wythnosau cyntaf 2019. Hefyd, cafwyd cynnydd anecdotaidd yn nifer yr achosion o bobl a chanddynt gyflyrau mwy aciwt neu gymhleth.

Aeth mwy o bobl i adrannau argyfwng yn ystod gaeaf 2018/19 na gaeaf 2017/18. Er gwaethaf y pwysau ychwanegol hwn, cafodd mwyafrif llethol y bobl a oedd angen ymateb yn syth gan y gwasanaeth ambiwlans neu asesiad a thriniaeth mewn Adran Argyfwng gymorth mewn modd amserol, a chofnodwyd llai o anawsterau gan wasanaethau gofal sylfaenol yn gyffredinol o gymharu â'r gaeaf blaenorol.

Fodd bynnag, cafwyd heriau mwy o ran capasiti mewn rhai rhannau o'r system gofal brys ac argyfwng a effeithiodd ar yr amser y bu'n rhaid i gleifion aros am gyngor, gofal neu driniaeth.

Cafwyd oedi cyn darparu gwasanaethau mewn rhai rhannau o'r system

Cafodd mwyafrif llethol y bobl a oedd angen gofal brys ac argyfwng dros aeaf 2018/19 eu gweld mewn modd amserol a chawsant ganlyniadau cadarnhaol. Fodd bynnag, bu'n rhaid i ormod o bobl aros yn rhy hir cyn cael eu trosglwyddo o ambiwlansys i ofal staff

Adrannau Argyfwng, a chyn cael dychwelyd i'w cartrefi o wely ysbyty aciwt pan oeddynt yn abl ac yn barod.

Yn ystod y gaeaf gwelwyd gwelliant yn y ddau faes, ond parhawyd i weld heriau mewn rhai rhannau o Gymru – nid yw'r heriau hyn wedi'u datrys eto a bydd angen gweithredu ar sail system gyfan er mwyn eu goresgyn.

Caiff cynnydd yn yr oedi cyn trosglwyddo cleifion o ambiwlansys ei gysylltu'n anochel â chapasiti cyfyngedig yn 'uwch i fyny' ac yn 'is i lawr' y system gofal brys ac argyfwng. Rhaid cymryd camau'n syth, a hefyd yn y tymor hwy, i gynyddu argaeledd gofal cartref a gallu'r gymuned i gynorthwyo pobl i osgoi mynd i'r ysbyty, a dychwelyd adref pan fyddant yn abl ac yn barod.

Arweiniodd nifer o ymyriadau a gynlluniwyd yn genedlaethol at wella cadernid

Cafodd nifer fechan o gynlluniau a gomisiynwyd yn genedlaethol ac a roddwyd ar waith yn lleol effaith ar brofiad cleifion a llesiant y staff, gan arwain hefyd at leihau'r pwysau ar wasanaethau lleol.

Aeth Llywodraeth Cymru, yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol a Phartneriaeth Cydwasanaethau Cymru y GIG ati i gomisiynu ar y cyd dri model gwasanaethau newydd a brofwyd yn lleol gan sefydliadau'r trydydd sector ochr yn ochr â GIG Cymru a phartneriaid.

Nod y modelau hyn oedd ceisio osgoi derbyniadau i ysbytai, gwella profiad y cleifion a helpu mwy o gleifion i symud o leoliadau ysbyty aciwt yn ôl i'w cartrefi. Aeth y cynlluniau ati i gynorthwyo miloedd o gleifion, gan ganolbwyntio ar gysylltu pobl â gwasanaethau cymunedol er mwyn osgoi achosion o orfod dychwelyd i'r ysbyty, a chan dynnu sylw at y capasiti ychwanegol, y gallu a'r gwerth a gynigir gan fudiadau'r trydydd sector.

Bylchau a phwysau ar y gweithlu wedi ychwanegu at yr her

Soniodd gweithwyr ieuchyd proffesiynol ar draws y system ofal brys ac argyfwng am bwysau ychwanegol dros gyfnod y gaeaf. Gall hyn arwain at ludded a blinder ac, yn y pen draw, at salwch ymhlith y staff, gan leihau adnoddau staff.

Awgryma adborth gan staff GIG Cymru fod bylchau sydd i'w cael eisoes mewn rotâu – ar rotâu meddygol a rotâu nyrsio – yn anodd eu llenwi, a bod hyn yn gwneud y system yn fwy dibynnol ar staff locwm gyda'r risg ychwanegol o fethu â chael gafael ar staff locwm o ansawdd da i lenwi'r bylchau.

Roedd hyn yn her arbennig y tu allan i oriau gweithio 'traddodiadol' pan gyrhaeddodd y galw am ambiwlansys, y galwadau i wasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau, ac achosion o ymweld ag Adrannau Argyfwng eu penllanw, gan arwain at bwysau ychwanegol ar y staff a mwy o oedi i gleifion dros nos ac yn gynnar yn ystod y bore.

Cafwyd adroddiadau hefyd fod rheolau sydd â'r bwriad o leihau gostyngiadau treth ar gynilion pensiwn i enillwyr uchel wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol. Awgryma'r adborth nad yw gweithio sifftiau ychwanegol bellach yn gynnig deniadol i feddygon oherwydd fe allai tri chwarter neu fwy o'u tâl gael ei gymryd fel treth.

Roedd cyfraddau'r bobl sy'n dewis cymryd y brechlyn fflw yn dal i fod islaw'r targed ar gyfer mwyafrif y grwpiau allweddol

Cafodd mwy o bobl nag erioed o'r blaen o blith y grwpiau cymwys yng Nghymru y brechlyn fflw'r gaeaf diwethaf, ond ar gyfer mwyafrif y grwpiau allweddol mae nifer y bobl sy'n dewis cymryd y brechlyn fflw yn dal i fod yn is na'r targed cenedlaethol.

Ar ôl gweld tuedd gadarnhaol barhaus, am y tro cyntaf ers i'r rhaglen hon gael ei chyflwyno gwelwyd gostyngiad yn nifer staff y GIG a gymerodd y brechlyn fflw. Dim ond pump o blith y deg Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd a gyrhaeddodd y targed 60%.

Darparwyd cyllid ar gyfer y gaeaf yn gynharach nag o'r blaen a chafodd ei dargedu i raddau helaeth at wella cadernid mewn ysbytai aciwt, nid at ddulliau ataliol gan Fyrddau Iechyd Lleol

Dyrannwyd cyllid Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2018 i gynorthwyo systemau lleol i gyflawni'u cynlluniau cyflawni integredig ar gyfer y gaeaf. Croesawodd staff rheng flaen y ffaith fod y cyllid wedi'i roi'n gynharach, ond roedd rhai o'r farn y dylai gael ei ddyrannu ynghynt yn y dyfodol i gynorthwyo cynllunio lleol.

Cafodd 76% o'r cyllid a ddyrannwyd i Fyrddau Iechyd Lleol ei wario ar gynlluniau i gynorthwyo i wella'r ddarpariaeth mewn Adrannau Argyfwng neu ysbytai aciwt. Cafodd £4 miliwn o blith y pecyn cyllid £39 miliwn ar gyfer y gaeaf ei ddyrannu'n genedlaethol i gynlluniau a oedd yn cynorthwyo'r llwybr gofal brys ac argyfwng.

O gofio am yr heriau o ran dychwelyd pobl i'w cartrefi a darparu pecynnau gofal yn y cartref, bydd systemau lleol yn dymuno targedu'r buddsoddiad at weithredu cynlluniau Byrddau Iechyd Lleol/Awdurdodau Lleol/trydydd sector i liniaru'r her hon.

Ceir tystiolaeth glir fod cleifion a chanddynt anhwylderau anadlol yn defnyddio gwasanaethau gofal brys ac argyfwng yn amlach yn ystod cyfnod y gaeaf; eto i gyd, dim ond wyth cynllun o blith 157 a gafodd gyllid gaeaf a dargedwyd at y grŵp hwn o gleifion.

Ar gyfer cleifion a chanddynt anhwylderau anadlol, bydd systemau lleol yn dymuno ystyried cynlluniau ataliol a dulliau o'u rheoli yn y gymuned ac yn yr ysbyty wrth ddatblygu cynlluniau lleol ar gyfer gaeaf 2019/20.

Cafodd mwy o dderbyniadau argyfwng eu hatal, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn

Aethpwyd i'r afael ag amrywiaeth o gamau gweithredu yn ystod 2018 wrth baratoi ar gyfer y gaeaf, er mwyn helpu pobl i aros gartref ac osgoi gorfod aros yn yr ysbyty'n ddiangen.

Gwnaethpwyd amrywiaeth o newidiadau i gynlluniau gofal sylfaenol gyda'r nod o osgoi derbyniadau. Roedd hyn yn cynnwys:

- ymestyn mynediad at wasanaethau meddygon teulu gyda'r nos ac yn ystod y penwythnos;
- cynyddu argaeledd gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau;
- gwella'r cymorth ar gyfer cleifion mewn cartrefi gofal;
- cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth atal cwympiadau; a rhoi cyfarpar codi i bron bob cartref gofal yng Nghymru.

Aeth yr ymgyrch farchnata *Dewis Doeth* ati i dargedu pobl a oedd mewn mwy o berygl o fod angen gwasanaethau gofal brys ac argyfwng trwy ddosbarthu miloedd o ffurflenni 'Fy Iechyd y Gaeaf Hwn'. Y bwriad oedd galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â phobl i wneud penderfyniadau mwy hyderus ynglŷn â phobl a chanddynt anghenion penodol, ar sail eu 'cynllun' eu hunain. Hefyd, roedd yn annog pobl i ddefnyddio fferyllfeydd pan oedd ganddynt fân anhwylderau.

Yn ystod y gaeaf, dengys tystiolaeth fod llai o bobl wedi'u derbyn i ysbytai aciwt o gymharu â'r gaeaf blaenorol, gyda lleihad o 7% yn nifer y bobl hŷn/eiddil (>85). Dylai systemau lleol barhau i ganolbwyntio ar gynorthwyo grwpiau allweddol â blaenoriaeth i aros yn eu cartrefi /cymuned leol.



Pum blaenoriaeth ar gyfer gaeaf 2018/19

Mewn gweithdy gaeaf a gynhaliwyd ym mis Mai 2018 aeth swyddogion Llywodraeth Cymru, arweinwyr clinigol cenedlaethol ac arweinwyr Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Awdurdodau Lleol ati i gyd-gynhyrchu **pum blaenoriaeth gyflawni ar gyfer gaeaf 2018/19**. Mae'r tabl isod yn disgrifio'r blaenoriaethau hyn a'r effaith a gawsant ar gyflawni yn ystod gaeaf 2018/19.

1. Gwneud y gorau o bartneriaethau clinigol a thraws-sefydliadol i ddatblygu cynlluniau lleol ar gyfer y gaeaf.

Effeithiau a welwyd yn ystod gaeaf 18/19

Cafodd yr holl gynlluniau eu 'cymeradwyo' i ryw raddau gan Gyfarwyddwr Clinigol a phartneriaid Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ond nid oedd yn glir fod clinigwyr ar draws y system wedi bod yn gysylltiedig â datblygu'r cynlluniau yn yr holl gymunedau iechyd a gofal lleol. Roedd yn ofynnol cael cymeradwyaeth gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd, ond nid oedd hyn bob amser yn digwydd.

Bu modd i feysydd lle yr ymgysylltwyd yn llwyr â phob rhanddeiliad esgor ar gynlluniau cynhwysfawr a arweiniodd yn gyffredinol at allu gwrthsefyll pwysau'r gaeaf yn well.

2. Ffocws penodol ar reoli cleifion yn well yn y gymuned yn ystod y gaeaf

Effeithiau a welwyd yn ystod gaeaf 18/19

Gwnaed buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y clinigwyr ar 'ddeg cymorth clinigol' Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Ym mis Ionawr 2019, bu modd i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ddatrys 9.4% o alwadau dros y ffôn – y gyfradd 'Gwrando a Thrin' uchaf i'w chofnodi ers i'r ddeg cymorth clinigol gael ei chyflwyno.

Cyfrannodd hyn at leihau nifer y cleifion a gludwyd i ysbytai gan ambiwlansys argyfwng, o gyfartaledd o oddeutu 17,500 y mis yn ystod gaeaf 2016/17 i gyfartaledd is nag 16,000 y mis yn ystod gaeaf 2018/19.

Ymhellach, rhoddwyd nifer o welliannau ar waith yn y gwasanaeth cyn y gaeaf, neu'n arbennig ar gyfer y gaeaf, yn cynnwys:

- Cynyddu nifer y clinigwyr mewn canolfannau cyswllt clinigol ambiwlansys ar gyfer 'gwrando a thrin';
- Ymestyn mynediad y tu mewn i oriau at feddygon teulu yn ystod y penwythnos, gyda'r nos ac yn ystod gwyliau banc mewn ardaloedd peilot;
- Cyflwyno cynllun dewis fferyllfa/mân anhwylder;
- Canolbwyntio mwy ar baru capasiti gofal sylfaenol y tu allan i oriau â'r galw disgwylidig;
- Gweithredu modelau triniaeth ddydd brys (gofal brys yr un diwrnod);
- Cynllun peilot ymateb i gwympiadau a gyflwynwyd gan St John Cymru Wales, a dargedwyd at alluogi pobl sydd wedi cwmpo, ond nad ydynt wedi cael anaf, i osgoi gorfod mynd i'r ysbyty; a
- Chyflwyno 111 GIG Cymru mewn dwy ardal Bwrdd Iechyd Lleol ychwanegol.

Yn unol â chyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru, cafwyd cryn ffocws lleol a chenedlaethol ar reoli yn y gymuned bobl a chanddynt anghenion gofal argyfwng.

Er bod gweithgarwch mewn Adranau Argyfwng wedi bod yn eithaf sefydlog o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, roedd derbyniadau argyfwng – yn enwedig ar gyfer pobl hŷn – yn is ar y cyfan na'r cyfartaledd pum mlynedd ar gyfer y gaeaf. Fe allai hyn fod o ganlyniad i aeaf mwynach, a arweiniodd at beidio â gwaethygu cymaint o anhwylderau hirdymor, ond mae'n bosibl bod ffocws gwell ar reoli pobl yn y gymuned wedi arwain at lai o dderbyniadau ac wedi galluogi mwy o bobl i aros gartref.

3. Gwella'r gafael gweithredol a rhoi ffocws clinigol wrth reoli mewn ysbytai er mwyn lleddfu'r uchafbwyntiau mewn gweithgarwch a rheoli risgiau'n effeithiol.

Effeithiau a welwyd yn ystod gaeaf 18/19

Rhoddwyd mentrau 'Torri'r Cylch' ar waith gan fwyafriaf y Byrddau Iechyd Lleol wrth baratoi ar gyfer y Nadolig – ac yn syth ar ei ôl. Bwriad y rhain oedd ei gwneud yn bosibl i roi cynnig ar rywbeth newydd yn ddi-oed gyda'r nod o wella gofal i gleifion trwy wella llif cleifion. Mae adborth anecdotaidd gan Fyrddau Iechyd Lleol a roddodd gynlluniau o'r fath ar waith yn awgrymu eu bod wedi gweithio'n dda lle y cafwyd ymrwymiad lleol iddynt, ochr yn ochr ag arweiniad rheoli ac arweiniad clinigol cadarn.

Mae data'n ymwneud â lefelau statws uwchgyfeirio ar gyfer gaeaf 2018/19 yn awgrymu bod ysbytai wedi isgyfeirio'n gyflymach ac wedi treulio llai o amser ar y lefel uchaf o gymharu â gaeafau blaenorol. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud, oherwydd yn ôl yr adborth ceir amrywio wrth ymateb i sbardunau ar draws rhannau o'r llwybr. Mewn achosion pan ddiodeffodd ysbytai bwysau cynyddol, ar y cyfan llwyddasant i ddod i drefn ac isgyfeirio'n gyflymach.

4. Canolbwyntio ar alluogi pobl i fynd adref o'r ysbyty pan fyddant yn barod

Effeithiau a welwyd yn ystod gaeaf 18/19

Canolbwyntiwyd llawer ar wella cyfleoedd i drosglwyddo pobl o'r ysbyty, yn cynnwys trwy gyfrwng prosiect cenedlaethol o'r enw "Mae pob diwrnod yn cyfrif. Gartref yn gyntaf".

Sefydlwyd nifer fechan o gynlluniau'n genedlaethol i ategu'r flaenoriaeth hon:

"Gwasanaeth Llesiant mewn Adrannau Argyfwng a dychwelyd adref yn ddiogel wedi'i ddarparu ar y cyd â'r Groes Goch Brydeinig"

Roedd nodau'r gwasanaeth yn cynnwys cynorthwyo cleifion a'u teuluoedd mewn adrannau argyfwng, mynd â chleifion perthnasol adref, eu helpu i ailgynefino, mynd i'w gweld wedyn i wirio'u llesiant, a'u cysylltu â gwasanaethau cymunedol.

Rhwng 17 Rhagfyr 2018 – 31 Mawrth 2019, cynorthwywyd 35,757 o bobl, cafodd 591 eu hailgynefino yn eu cartrefi a chafodd mwy na 190 eu cyfeirio at wasanaeth arall. Cafodd y cynllun peilot adborth cadarnhaol gan gleifion a staff.

Yn sgîl llwyddiant y cynlluniau peilot hyd yn hyn, ac yng ngoleuni tystiolaeth feintiol ac ansoddol a gyflwynwyd fel rhan o adolygiad canol tymor o'r cynlluniau peilot, ym mis Ebrill 2019 cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyllid i ymestyn y gwasanaeth mewn saith o safleoedd peilot am chwe mis (1 Ebrill – 30 Medi 2019) a chynyddu gwasanaeth cyfredol yn Ysbyty Treforys i'w gysoni â'r model gwasanaeth a dreialwyd dros y gaeaf. Yn sgîl yr estyniad hwn bydd modd cipio mwy o ddata a chynnal gwerthusiad manwl cyn gaeaf 2019/20.

"Gwasanaeth 'Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach' wedi'i ddarparu ar y cyd â Gofal a Thrwsio Cymru"

Cafodd y gwasanaeth 'Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach' ei ddarparu ar y cyd â Gofal a Thrwsio Cymru yn ystod gaeaf 2018/19. Nod y gwasanaethau oedd cynorthwyo i leihau oedi cyn trosglwyddo cleifion yn ogystal â lleihau cyfraddau derbyn ac aildderbyn i'r ysbyty.

Yn ystod cyfnod y cynllun peilot, darparwyd gwasanaethau mewn 10 o ysbytai; Llun – Gwener. Roedd y canlyniadau'n cynnwys:

- 626 o atgyfeiriadau ysbyty
- Cwblhau 357 o Archwiliadau Cartrefi Iach
- Gwneud gwaith ar gyfer 508 o gleifion er mwyn hwyluso'r broses o'u rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty
- Gwneud 628 o welliannau i gartrefi.

Yn sgîl llwyddiant y cynlluniau peilot, ac yng ngoleuni tystiolaeth feintiol ac ansoddol a gyflwynwyd fel rhan o adolygiad canol tymor, ym mis Ebrill 2019 cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyllid i ymestyn y gwasanaeth am chwe mis (1 Ebrill – 30 Medi 2019)

#ENDPJPARALYSIS

Cafodd ymgyrch drwy'r DU i annog cleifion mewn ysbytai i godi, gwisgo a symud o gwmpas er mwyn atal dirywiad cyffredinol ei lansiio ym Mawrth 2018.

Arweiniad ar Llif Cleifion DIOGELACH

Cafodd arweiniad cenedlaethol ar lif cleifion DIOGELACH ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2018, a chaiff ei roi ar waith yn lleol. Mae'r arweiniad yn cynnig awgrymiadau ymarferol ar gyfer cynorthwyo gweithio ar y cyd er mwyn galluogi pobl i ddychwelyd i'w cartrefi'n iach, yn ddiogel ac mewn modd amserol.

Gofal Argyfwng Dydd

Mae ffocws cynyddol yn genedlaethol ac yn lleol ar ofal argyfwng dydd wedi cyfrannu at leihau'r amser y mae pobl yn gorfod aros mewn ysbytai.

5. Canolbwyntio'n benodol ar ddulliau 'rhyddhau i asesu' er mwyn atal derbyniadau i'r ysbyty neu arosiadau diangen o hir yn yr ysbyty.

Effeithiau a welwyd yn ystod gaeaf 18/19

Gwelwyd amrywio ar draws Cymru mewn perthynas â datblygu dulliau 'rhyddhau i asesu'. Gwelwyd llwyddiant mewn mannau, ond dyddiau cynnar yw hi i'r modelau hyn ar y cyfan ac maent yn faes ffocws allweddol ar gyfer systemau lleol am weddi 2019/20.

Cyflwyniad

Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dan bwysau drwy gydol y flwyddyn, ond gall y gaeaf fod yn gyfnod arbennig o anodd. Gall amodau tywydd oerach a mwy peryglus, cynnydd neu newidiadau mewn gweithgareddau mewn rhai rhannau o'r system, a chlefydau heintus fel y fflwi arwain at bwysau ychwanegol ar staff rheng flaen a chael effaith negyddol ar brofiad cleifion a'r gallu i ddarparu gwasanaethau prydlon.

Nod adolygiad Llywodraeth Cymru yw deall sut yr aeth systemau iechyd a gofal lleol ati i gynllunio ar gyfer y pwysau ychwanegol yma, ac ymdrin ag ef, yn ystod gaeaf 2018/19.

Mae'r adolygiad yn:

- disgrifio'r hyn a ddigwyddodd o safbwynt gweithgarwch a darpariaeth;
- crynhoi sut y gwnaeth systemau lleol berfformio yn erbyn blaenoriaethau ar gyfer y gaeaf, a bennwyd gan Lywodraeth Cymru; a
- tynnu sylw at feysydd y dylai systemau iechyd a gofal lleol eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer gaeaf 2019/20.

At ddiben yr adolygiad hwn, mae'r gaeaf wedi'i ddiffinio fel y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2018 a 31 Mawrth 2019.



Heriau'n ymwneud yn benodol â'r gaeaf

Y tywydd: gaeaf mwynach

Yn ôl y Swyddfa Dywydd, roedd gaeaf 2018/19 yn fwynach nag arfer, gyda llai o ddiwrnodau pan oedd y tymheredd yn is na 2°C a llai o ddiwrnodau pan geid 'rhew awyr' (o gymharu â'r cyfartaledd 30 mlynedd). Rhagfyr 2018 oedd y nawfed Rhagfyr cynhesaf ers i gofnodion ddechrau yn 1910, ac roedd y rhan fwyaf o hanner cyntaf mis Ionawr 2019 hefyd yn gynhesach na'r cyfartaledd.

Mae tystiolaeth a gyhoeddwyd gan lechyd Cyhoeddus Lloegr yn *Cold Weather Plan* (2017) yn awgrymu bod tywydd oer a gaeafol yn effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar ieuchyd. Mae'r effeithiau uniongyrchol yn cynnwys mwy o drawiadau ar y galon, strociau, clefydau anadlol, y fflw, cwympiadau ac anafiadau, a hypothermia. Mae'r effeithiau anuniongyrchol yn cynnwys effeithiau ieuchyd meddwl yn sgil iselder, llai o lwyddiant yn y byd addysg a'r byd gwaith, a pherygl yn sgil gwenwyn carbon monocsid.

Gall tywydd eithriadol o oer ladd yn uniongyrchol trwy gyfrwng hypothermia. Fodd bynnag, mae hyn yn brin, a chlefydau cylchrediad y gwaed fel trawiadau ar y galon a strociau, sy'n gyfrifol am oddeutu 40% o'r marwolaethau ychwanegol a welir yn ystod y gaeaf, gydag oddeutu traean o'r marwolaethau ychwanegol hyn yn digwydd oherwydd salwch anadlol.

Mae tywydd oer yn arwain bron yn syth at farwolaethau cysylltiedig â'r tywydd, a gall marwolaethau o'r fath fod yn uwch am hyd at bedair wythnos. Marwolaethau yn sgil cyflyrau cardiofasgwlaidd sy'n cyrraedd eu penllanw yn gyntaf, ac yna marwolaethau yn sgil strociau a chlefydau anadlol.

Mae effeithiau negyddol ar ieuchyd yn cychwyn ar dymheredd awyr agored cymedrig cymharol gymedrol, sef 4-8°C. Er bod perygl marwolaeth yn codi wrth i'r tymheredd ostwng, mae amllder y diwrnodau sydd â thymheredd cymedrol mewn gaeaf cyffredin yn golygu bod y baich ieuchyd mwyaf o ran nifer absoliwt y marwolaethau yn digwydd ar dymheredd mwy cymedrol.

Nid oedd data'n ymwneud â marwolaethau yn ystod gaeaf 2018/19 ar gael adeg cyhoeddi'r ddogfen hon.

Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddysgu ar sail adroddiad lechyd Cyhoeddus Lloegr ac ystyried gweithio ochr yn ochr ag lechyd Cyhoeddus Cymru

i ddiweddarau dulliau o gynllunio ar gyfer tywydd eithafol. Ceir cyfleoedd hefyd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynorthwyo poblogaethau lleol cymwys i amddiffyn yn well rhag y tywydd oer trwy hyrwyddo atgyfeiriadau at 'gynllun cartrefi clyd NYTH' Llywodraeth Cymru: <https://nyth.llyw.cymru/cy/>

Cynnydd mewn clefydau heintus

Gwelwyd cynnydd mewn achosion o salwch anadlol aciwt a salwch gastroberfeddol mewn ysbytai'r tymor hwn, gydag achosion o salwch anadlol aciwt wedi dyblu bron iawn.

Er bod tymhorau fflw A(H1N1) fel arfer yn arwain at achosion niferus mewn ysbytai yn hytrach nag mewn cartrefi gofal, efallai fod y cynnydd a gofnodwyd yn yr achosion mewn ysbytai'r tymor hwn wedi deillio, yn rhannol, o gynnal mwy o brofion ac o ddulliau gwell o ganfod achosion.

Gwelwyd lleihad dramatig mewn achosion o salwch anadlol aciwt mewn cartrefi gofal y tymor hwn – gellid disgwyl hyn, oherwydd mae Fflw A(H1N1) fel arfer yn effeithio ar gyfrannau uwch o oedolion ifanc a phlant.

Gwelwyd gostyngiad yn yr achosion o'r fflw o gymharu â gaeaf 2017/18

- Y gaeaf diwethaf gwelwyd gostyngiad o 16% yn nifer yr achosion o'r fflw a gafodd eu cadarnhau, o gymharu â gaeaf 2017/18.
- Cadarnhawyd mai Fflw A(H1N1) oedd y math amlycaf o fflw a welwyd yn ystod tymor 2018/19 ac roedd wedi'i baru'n dda â'r brechlyn a oedd ar gael.
- Llwyddodd y brechlyn fflw i arwain at leihad o 44% yn y tebygolrwydd y byddai pobl yn ymweld â'u meddyg teulu oherwydd y fflw; hefyd, amcangyfrifir bod y brechlyn fflw sy'n cynnwys cyffur ategol – a roddwyd i'r rhan fwyaf o oedolion 65 oed a hyn am y tro cyntaf – wedi cynnig amddiffyniad o oddeutu 60% rhag y mathau o fflw a oedd ar led.
- 47.5% yn unig o bobl sy'n dioddef o 'glefyd anadlol cronig' a ddewisodd gymryd y brechlyn yn 2018/19.

Ar gyfer gaeaf 2018/19, cyrhaeddodd y fflw ei benllanw yn ystod wythnosau cyntaf 2019, ac roedd ryw faint yn uwch na'r trothwy dwysedd canolig. Roedd hyn yn is nag ar gyfer y gaeaf blaenorol, lle y gwelwyd uchafbwyntiau o fewn y trothwy dwysedd uchel.


Cadarnhawyd mai Fflw A(H1N1) oedd y prif fath o fflw yn ystod tymor 2018/19, ac mae data sy'n deillio o ddilyniannu firysau yng Nghymru yn awgrymu

bod y firysau a oedd ar led wedi'u paru'n enetig â'r brechlyn a oedd ar gael. Er bod y salwch yn effeithio ar gleifion o bob oed, mae tymhorau fflw A(H1N1) yn tueddu i effeithio ar gyfrannau uwch o oedolion 18-65 oed a phlant, tra mae fflw A(H3N2) yn aml yn effeithio fwyaf ar bobl hŷn.

Mae Ffigur 1 yn dangos cymhariaeth rhwng gweithgarwch fflw yn ystod y gaeafau diwethaf.

Ffigur 1:

Cyfradd ymgynghori clinigol fesul 100,000 o boblogaeth practisau mewn practisau sentinel yng Nghymru (ar 29/05/2019) (ffynhonnell: adroddiad goruchwyllo wythnosol lechyd Cyhoeddus Cymru ar y fflw a heintiau anadlol aciwt).



Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019, cadarnhawyd 2,588 achos o'r fflw yn ystod y tymor ar draws Cymru, o gymharu â 3,055 ym mis Mawrth 2018. Roedd nifer uchel yr achosion a gadarnhawyd y tymor hwn (2018/19) yn deillio'n rhannol o gynnal mwy o brofion yn dilyn cyflwyno profion fflw cyflym ar gyfer cleifion mewn Adrannau Argyfwng ar draws Cymru.



Darpariaeth a pherfformiad

Cafodd y mwyafrif llethol o bobl ofal amserol, ond bu'n rhaid i ormod o bobl aros yn rhy hir cyn cael eu gweld mewn Adrannau Argyfwng

Y gaeaf diwethaf, 2018/19, cafodd 261,372 o bobl – 78% o'r holl gleifion a fynychodd Adrannau Argyfwng – eu brysennu, eu hasesu, eu trin, a naill ai eu derbyn i'r ysbyty neu eu rhyddhau o fewn pedair awr. Fodd bynnag, ar adegau pan oedd y galw'n uchel iawn, bu'n rhaid i rai cleifion aros am gyfnod annerbyniol o hir oherwydd rhwystrau a geid yn "is i lawr" yn system yr ysbyty ac ar ôl rhyddhau. Hefyd, gwelwyd cryn amrywio ar draws adrannau lleol.

Treuliodd 11,941 (5%) yn fwy o gleifion lai na phedair awr mewn Adrannau Argyfwng dros gyfnod y gaeaf o gymharu â'r gaeaf blaenorol. Bu 17,663 o bobl yn aros mwy na 12 awr i gael eu derbyn i'r ysbyty neu eu rhyddhau, sef 1698 (7%) yn llai nag yn ystod gaeaf 2017/18.

Mae adborth a ddarparwyd o arolwg profiad staff dros y gaeaf, a gynhaliwyd gan Sefydliad Picker (Ewrop) yn awgrymu'r canlynol:

- Bod mwyafrif y staff wedi teimlo dan bwysau, gan nodi mai bylchau mewn adnoddau staffio a oedd wrth wraidd hyn. Dywedodd y staff fod galw o du cleifion yn drech na'r cyflenwad staff, ac y ceid oedi wrth geisio ymdrin ag absenoldebau cynlluniedig fel absenoldeb mamolaeth.
- Tynnwyd sylw'n gyson at y cymorth a rydd y Groes Goch Brydeinig i Adrannau Argyfwng, a nodwyd ei fod yn ychwanegu gwerth. Roedd hyn yn cyd-fynd ag adborth gan sefydliadau ieuchyd, yn cynnwys colegau brenhinol.
- Y teimlad oedd bod angen cysylltu mwy â staff rheng flaen yn ystod y broses gynllunio, darparu cyllid yn gynnar, mwy o adnoddau cymunedol i gynorthwyo i ryddhau pobl o'r ysbyty mewn modd amserol, recriwtio i lenwi bylchau staffio, a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau amgen, er mwyn cynorthwyo gyda'r ddarpariaeth ar gyfer y gaeaf nesaf.

Cafwyd oedi mewn rhannau eraill o'r system

Oedi cyn trosglwyddo cleifion o ambiwlansys

Ar gyfartaledd, bu'n rhaid i 86 o bobl (13% o'r rhai a gludwyd i'r ysbyty mewn ambiwlans argyfwng) aros am fwy nag awr i gael eu trosglwyddo o'r ambiwlans bob diwrnod yn ystod gaeaf 2018/19. Roedd y ffigur hwn 5% yn is nag ar gyfer gaeaf 2017/18, ond roedd yn dal i fod yn her o safbwynt profiad y claf a gallu'r gwasanaeth ambiwlans i ymateb i alwadau brys dilynol yn y gymuned.

Oedi cyn trosglwyddo a chapasiti gofal cymdeithasol

Nifer y bobl a ddioddefodd oedi yn y cyfnodau cyfrifiad misol rhwng Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019 oedd 1770. Mae'r ffigur hwn 6.8% yn uwch nag ar gyfer yr un cyfnod yn ystod 2017/2018 a dyma'r ffigur mwyaf dros y tri gaeaf diwethaf.

Roedd capasiti gofal cartref yn dal i fod yn her sylweddol o ran galluogi pobl i adael yr ysbyty, a dyma a arweiniodd at 63% o'r achosion o oedi 'cysylltiedig â gofal cymdeithasol' dros y gaeaf.

Mae sicrhau lefelau digonol o wasanaethau gofal yn y cartref yn parhau i fod yn dasg hynod heriol i nifer o awdurdodau lleol, er gwaethaf eu hymdrechion i wella sefydlogrwydd yn y farchnad sector preifat trwy gyfrwng amrywiaeth o ymyriadau cefnogol.

Mae cyllidebau Awdurdodau Lleol dan bwysau arbennig, ac mae gofal cartref yn faes allweddol y gellid ei gryfhau er mwyn cadw pobl allan o ysbytai a'u dychwelyd adref ynghynt pan fo hynny'n briodol.

O safbwynt oedi 'cysylltiedig â gofal ieuchyd' dros y gaeaf, ar gyfer cleifion sy'n aros i adael yr ysbyty, y prif broblemau oedd diffyg gofal nyrsio a dim digon o ddarpariaeth gofal ieuchyd meddwl – yn arbennig, gwasanaethau ieuchyd meddwl ar gyfer yr henoed.

Roedd yr olaf yn gyfrifol am 15% o bob achos o oedi yn y cyfnod pedwar mis. Mae'r effaith ar bobl a gwlâu, y mae galw mawr amdanynt yn ystod misoedd y gaeaf, yn awgrymu y dylai cynigion i leihau amseroedd ar gyfer rhyddhau cleifion a chanddynt gyflyrau ieuchyd meddwl gael lle amlycach mewn cynlluniau ar gyfer gwrthsefyll pwysau'r gaeaf yn y dyfodol.

Mae gallu'r gwasanaeth ambiwlans i ymateb i alwadau uwchlaw'r targed ar gyfer pobl sydd â'r angen mwyaf

Cafodd cyfuniad o ffactorau – yn cynnwys cyfnodau achlysurol o dywydd garw, salwch staff, oedi cyn trosglwyddo cleifion o ambiwlansys, a materion eraill yn ymwneud ag argaeledd ambiwlansys – effaith ar allu'r gwasanaeth ambiwlans i ymateb, ond cafodd yr adnoddau eu blaenoriaethu i ymateb yn ddi-oed i'r bobl a oedd â'r angen mwyaf.

Mae'r targed amser ymateb cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ymateb i 65% o gleifion a chanddynt gyflyrau neu anafiadau sy'n rhoi eu bywydau yn y fantol (galwadau categori Coch) o fewn wyth munud.

Llwyddodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru i gwrdd â'r targed amser ymateb ar gyfer galwadau coch ym mhob mis yn ystod y gaeaf (Rhagfyr 2018 – Mawrth 2019), gyda'r perfformiad ar gyfer galwadau Coch yn uwch na 70% ar gyfer pob mis yn ystod y cyfnod. Roedd y perfformiad yn well fesul mis yn ystod gaeaf 2018/19 nag yr oedd yn ystod gaeaf 2017/18, gyda gwelliannau misol o rhwng 1.6 – 3.4 pwynt canran ar gyfer Rhagfyr – Mawrth.

Gwelwyd gwelliant cyffredinol wrth ymateb i gleifion yn y categori oren a lleihad yn nifer y bobl a fu'n aros yn eithriadol o hir am ymateb gan ambiwlans. Fodd bynnag, cyfrannodd materion yn ymwneud ag argaeledd ambiwlansys at oedi hir ar gyfer galwadau yn y categori hwn ar brydiau.



Gweithgarwch, cyflenwad a llif

Profodd adrannau argyfwng gynnydd yn y galw gan gleifion

Roedd gweithgarwch mewn Adrannau Argyfwng fymryn yn uwch o gymharu â'r gaeaf blaenorol. Ond roedd y gyfran o bobl 85 oed a hŷn a welwyd yn mynychu Adrannau Argyfwng ac a dderbyniwyd i ysbytai ar ei hisaf ers 2013/14. Nid yw'r rhesymau am hyn yn glir.

Bob dydd yn ystod y gaeaf (Rhagfyr 2018 – Mawrth 2019) gwelwyd 2160 o bobl ar gyfartaledd mewn Adran Argyfwng a chawsant eu derbyn i'r ysbyty neu eu rhyddhau o fewn pedair awr.



Arhosodd derbyniadau brys i'r ysbyty yn eithaf sefydlog ar y cyfan

Yn ystod gaeaf 2018/19, ar gyfartaledd cafodd 564 o gleifion argyfwng eu derbyn trwy Adrannau Argyfwng bob diwrnod, sef 9 (1.6%) o gleifion yn fwy nag yn ystod y gaeaf blaenorol.

Y nifer o gleifion a gafodd eu derbyn i Adrannau Argyfwng ar ôl cael eu cyfeirio gan feddyg teulu ar gyfer Ionawr 2019 oedd y nifer uchaf i'w gofnodi, ac roedd 6% yn uwch nag yn ystod Ionawr 2018. Y prif sbardun wrth wraidd y cynnydd oedd derbyniadau arhosiad byr, gyda mwy na 60% o'r cynnydd rhwng Rhagfyr 2018 ac Ionawr 2019 yn ymwneud ag arosiadau gan gleifion na fu'n rhaid iddynt aros yn yr ysbyty dros nos wedi'r cwbl.

Gwnaed llai o alwadau argyfwng i'r gwasanaeth ambiwlans

Ar gyfartaledd gwnaed 1,292 o alwadau argyfwng i'r gwasanaeth ambiwlans bob diwrnod yn ystod y gaeaf (Rhagfyr 2018 – Mawrth 2019), 81 (6%) yn llai nag yn ystod gaeaf 2017/18. Ar gychwyn y gaeaf fe gynyddodd y galw, ond ar ôl y flwyddyn newydd gwelwyd lleihad ac arhosodd yn sefydlog am weddill cyfnod y gaeaf.

Cynyddodd y galw ar gyfer galwadau Coch ym mis Rhagfyr 2018 ac roedd bron i 7% yn uwch o gymharu â mis Rhagfyr 2017; ond dros gyfnod y gaeaf, ar gyfartaledd, cafwyd 2 (3%) yn llai o alwadau'r dydd nag a gafwyd yn ystod gaeaf 2017/18. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, cafwyd 7 (11%) yn fwy o alwadau'r dydd nag yn ystod gaeafau 2015/16 a 2016/17.

Arhosodd y gyfradd ar gyfer cludo cleifion i'r ysbyty mewn ambiwlans argyfwng yn sefydlog

Ar gyfartaledd, cafodd 659 o gleifion eu cludo i adrannau damweiniau ac achosion brys mewn ambiwlans bob dydd yn ystod gaeaf 2018/19, sef rhyw fymryn yn fwy nag yn ystod gaeaf 2017/18 ond 24 (4%) yn llai nag yn ystod gaeaf 2016/17.

Mae cyfraddau "gwrando a thrin" wedi cynyddu

Buddsoddodd Llywodraeth Cymru yn nesg cymorth clinigol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, gan arwain at recriwtio 16 o glinigwyr ychwanegol, ac ochr yn ochr â hyn gwelwyd cynnydd mewn canlyniadau 'gwrando a thrin':

- Llwyddwyd i ddatrys mwy nag 13,000 o alwadau gan gleifion dros y ffôn rhwng Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019. Cynnydd o 2422 (23%) o gymharu â'r un cyfnod ddwy flynedd yn ôl.
- Yn Ionawr 2019, llwyddodd gwasanaeth ambiwlans Cymru i ddatrys 9.4% o alwadau dros y ffôn – y gyfradd 'gwrando a thrin' uchaf i'w chofnodi.
- Yn anochel, mae pob un o'r canlyniadau 'gwrando a thrin' yn osgoi'r angen i Ambiwllans Argyfwng fynd at y claf, gan ryddhau'r adnodd costus hwn ar gyfer mynychu galwadau eraill.

Roedd gwasanaethau gofal sylfaenol brys yn fwy cadarn

Mae tystiolaeth sy'n deillio o fanylion a gyflwynwyd mewn perthynas â llenwi rotâu gofal sylfaenol y tu allan i oriau yn ystod gaeaf 2018/19 yn awgrymu bod y ddarpariaeth gwasanaethau mewn sefyllfa well ac yn fwy cadarn, fel y gwelwyd y gaeaf blaenorol hefyd. Mae gweithio ehangach o fewn timau amlddisgyblaethol wedi cynorthwyo gyda chyfran o'r llwyth gwaith clinigol (a heb fod yn glinigol) hwn mewn modd priodol a diogel.

Yn ystod gaeaf 2018/19, roedd y gwasanaeth 111 ar gael mewn tri o ardaloedd byrddau iechyd; Abertawe Bro Morgannwg; Powys; a Hywel Dda. Ar gyfartaledd, galwodd 1089 o bobl y gwasanaeth 111 bob diwrnod yn ystod Rhagfyr 2018, sef cynnydd

o gymharu â'r tri mis blaenorol. Mae'n debyg fod y ffaith nad oedd cymaint o wasanaethau gofal sylfaenol y tu mewn i oriau ar gael yn ystod cyfnod y Nadolig oherwydd gwyliau banc wedi arwain at y cynnydd, ac yn ystod Ionawr 2019 gwelwyd lleihad yn nifer y galwadau, cyn i'r nifer godi eto yn ystod Chwefror a Mawrth.

Cafodd amrywiaeth o gynlluniau ychwanegol i ategu'r ddarpariaeth y tu allan i oriau eu profi yn ystod gaeaf 2018/19. Roedd y rhain yn cynnwys ehangu darpariaeth meddygon teulu i benwythnosau a gwyliau banc (i gael rhagor o wybodaeth am gynlluniau peilot Gofal Sylfaenol Brys – Gwerthusiad Terfynol Rhan 1 ewch i: <http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/407/opedoc/498555>

Cyflwynwyd y gwasanaeth 111 ledled Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 13 Awst 2019. Mae cynlluniau ar droed i gyflwyno'r gwasanaeth ymhellach er mwyn darparu dros Gymru gyfan erbyn 2021/22.

Ar y cyfan llwyddodd gofal sylfaenol y tu mewn i oriau i reoli'r galw mewn modd cadarn

Cafwyd cryn amrywio yn y gweithgarwch y soniwyd amdano gan sampl o bractisau meddygon teulu ar draws Cymru. Dywedodd y mwyafrif fod y tri diwrnod yn dilyn cyfnod gŵyl y banc – ar ôl Dydd Gŵyl San Steffan – yn eithriadol o brysur, ac mai'r prif sbardunau am y galw oedd 'salwch meddwl', heintiau ar y frest a heintiau'r llwybr wrinol. Awgrymodd yr ardaloedd a gyflwynodd adborth fod yna bwysau sylweddol ar brydiau, ond ei fod wedi'i reoli'n dda ar y cyfan.



Gohiriwyd llai o lawdriniaethau

Er mwyn paratoi ar gyfer y pwysau cynyddol ac fel rhan o'u gwaith cynllunio, yn ystod cyfnod y gaeaf bydd byrddau iechyd yn aml yn ystyried lleihau gweithgareddau dewisol ar gyfer cleifion mewnol, er mwyn creu capasiti i gwrdd â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau brys ac argyfwng sydd, yn aml, i'w weld yr adeg hon o'r flwyddyn.

Bydd y lleihad cynlluniedig hwn mewn gweithgareddau dewisol, yn y rhan fwyaf o achosion, yn ymwneud yn aml â chleifion mewnol rheolaidd, nid rhai sydd angen triniaeth frys neu mewn argyfwng. Er enghraifft, mae pobl y mae arnynt angen triniaeth at ganser neu lawdriniaeth dydd, lle na fyddant angen gwely, yn tueddu i gael eu gweld. Fodd bynnag, fe effeithiodd y cynnydd yn y pwysau o du gwasanaethau brys ac argyfwng ar allu byrddau iechyd i gynnal lefel arfaethedig y gweithgarwch dewisol dros gyfnod y gaeaf, gan arwain at orfod gohirio rhai llawdriniaethau.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru bron i £50 miliwn o gyllid ychwanegol i GIG Cymru cyn gaeaf 2018/19 i gefnogi gwelliannau. Rhwng Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019 gwelwyd lleihad o 11% yn nifer y triniaethau a ohiriwyd o gymharu â gaeaf 2017-18. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd yn nifer y triniaethau a ohiriwyd gan gleifion.



Cynyddodd y gyfradd defnydd gwlâu yn ystod y gaeaf

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, hyd at aeaf 2018/19, gwelwyd cynnydd o 5% yn y gyfradd defnydd gwlâu ar draws Cymru, ac yn awr mae'n nes at 90% gyda chyfartaledd blyneddol sydd uwchlaw

95% ers 2015. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod lefelau defnydd yn ystod gaeaf 2018/19 yn uwch. Er enghraifft, gwelodd Ionawr 2019 y gyfradd defnydd gwlâu uchaf i'w chofnodi (96.9%).

Model cenedlaethol i gynllunio a darparu ar gyfer y gaeaf

Cafwyd proses gynllunio gadarn ar gyfer y gaeaf

Roedd yn ofynnol i gymunedau iechyd a gofal cymdeithasol lleol (olion traed Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol) roi sicrwydd ynglŷn â'r graddau yr oedd y camau a nodir mewn **cynlluniau integredig i ddarparu ar gyfer y gaeaf** yn cydweddu â'r pum blaenoriaeth ar gyfer gaeaf 2018/19. Derbyniwyd y cynlluniau hyn ym mis Medi 2018 a bu swyddogion Llywodraeth Cymru, Uned Gyflawni GIG Cymru a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn craffu arnynt.

Yn ystod cyfnod yr haf cynhaliwyd **cyfarfodydd uwchgynhadledd darparu ar gyfer y gaeaf** gyda phob cymuned iechyd a gofal, a rhai ar wahân gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, er mwyn adolygu'r ddarpariaeth yn ystod gaeaf 2017/18 ac arfarnu cynlluniau cyflawni ar gyfer y gaeaf i ddod. Cynhaliwyd mwy o gyfarfodydd uwchgynhadledd yn yr hydref i geisio sicrwydd ynglŷn â'r camau y dylid eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau a bennwyd. Nodwyd hefyd gymorth cenedlaethol gan Uned Gyflawni GIG Cymru a'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu lle y teimlwyd y byddai'n ychwanegu gwerth.

Ymhellach, gwahoddwyd byrddau iechyd i lunio cynlluniau gweithredol ar gyfer y cyfnod 18 diwrnod hollbwysig rhwng 21 Rhagfyr 2018 – 6 Ionawr 2019, i gydnabod yr heriau arbennig a allai ddigwydd yn ystod y cyfnod hwn oherwydd y naw diwrnod o wyliau banc a diwrnodau penwythnos.

Gwell cadernid

Er gwaethaf y pwysau, ceir tystiolaeth fod cynllunio trylwyr yn lleol wedi talu'n dda, gydag ysbytai ar draws Cymru yn dweud eu bod wedi treulio llawer llai o amser ar y lefel uwchgyfeirio uchaf y gaeaf diwethaf o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mewn achosion pan ddioddefodd ysbytai bwysau cynyddol, ar y cyfan llwyddasant i ddod i drefn ac isgyfeirio'n gyflymach.

Ym mis Ionawr 2019, cafodd 36.63% o'r amser a dreuliwyd wedi'i uwchgyfeirio ei gofnodi fel bod ar Lefel 4, o gymharu â 47.87% ar Lefel 4 ym mis Ionawr 2018. Mae treulio llai o amser ar y lefel uwchgyfeirio uchaf yn arwydd bod systemau ysbytai'n fwy cadarn ym mis Ionawr o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Roedd cyfraddau'r bobl sy'n dewis cymryd y brechlyn fflw islaw'r targed ar gyfer grwpiau allweddol

Cafodd mwy o bobl nag erioed o'r blaen o blith y grwpiau cymwys yng Nghymru y brechlyn fflw y gaeaf diwethaf, ond ar gyfer mwyafrif y grwpiau allweddol mae nifer y bobl sy'n dewis cymryd y brechlyn fflw yn dal i fod yn is na'r targed.

Cafodd mwy o bobl nag erioed o'r blaen o blith y grwpiau cymwys yng Nghymru y brechlyn fflw y gaeaf diwethaf, ac amcangyfrifir bod cyfanswm yr unigolion a gafodd eu himiwneddio yn erbyn y fflw yn **868,688**. Mae hyn yn cyfateb i 28% o holl boblogaeth amcangyfrifedig Cymru ac yn gynydd o 48,500 ar y tymor blaenorol.



Mae'n ymddangos bod y cynnydd hwn wedi deillio'n bennaf o ymestyn i gynnig y brechlyn i bob plentyn oedran ysgol gynradd ac i staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal.

Y gaeaf diwethaf, cafodd y rhaglen ar gyfer plant ei hymestyn i gynnwys dwy o flynyddoedd ysgol ychwanegol, gan olygu bod y brechlyn wedi'i gynnig i bob plentyn oedran ysgol gynradd am y tro cyntaf.

Am y tro cyntaf y gaeaf diwethaf, cynigiwyd y brechlyn am ddim hefyd i staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal a chartrefi nyrsio trwy gyfrwng y cynllun fferyllfa gymunedol. Roedd y nifer a gymerodd y brechlyn yn 14%. Er bod y ffigur hwn yn uwch na'r hyn a welwyd ym flwyddyn gyntaf y rhaglen ar gyfer brechu staff y GIG, disgwylir i'r ffigur hwn godi yn y dyfodol wrth i'r rhaglen ennill ei phlwyf ac i ymwybyddiaeth wella.

Serch hynny, ar gyfer mwyafrif y grwpiau allweddol, mae'r nifer sy'n cymryd y brechlyn yn dal i fod yn is na'r targed. Er enghraifft, am y tro cyntaf ers

i'r rhaglen gael ei chyflwyno, ac yn dilyn tuedd gadarnhaol barhaus, gwelwyd gostyngiad yn nifer staff y GIG a gymerodd y brechlyn fflw. Dim ond pump o blith y deg bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd a lwyddodd i gyrraedd y targed 60%.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i lechyd Cyhoeddus Cymru weithio gyda byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i geisio cynyddu nifer y plant dwy a thair oed sy'n cael y brechlyn, ynghyd â'r rhai sydd mewn perygl rhwng chwe mis a 65 oed a staff rheng flaen.

Effaith buddsoddiad ychwanegol ar gyfer y gaeaf

Gofal wedi'i gynllunio

Rhoddodd Llywodraeth Cymru bron i £50 miliwn o gyllid ychwanegol i GIG Cymru yn 2018-19 er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y ddwy flynedd flaenorol ac er mwyn gwella amseroedd aros ymhellach erbyn diwedd Mawrth 2019. Unwaith eto, canolbwyntiwyd llawer ar leihau nifer y cleifion a oedd yn aros mwy na 36 wythnos, y rhai a oedd yn aros mwy nag 8 wythnos am brofion diagnostig a'r rhai a oedd yn aros mwy nag 14 wythnos am wasanaethau therapi.

Yn sgil y cyllid hwn, bu modd i fyrddau iechyd gynyddu eu capasiti adnoddau mewnol ac allanol i ategu'r ddarpariaeth yn gynharach yn y flwyddyn. Llwyddodd chwech o blith y saith bwrdd iechyd i gyrraedd yr un sefyllfa, neu sefyllfa well, erbyn diwedd Mawrth 2019, o gymharu â diwedd Mawrth 2018. Dywedodd tri bwrdd iechyd na fu'r un claf yn aros mwy na 36 wythnos, a llwyddodd dau fwrdd iechyd i gyrraedd sefyllfa well na'r hyn yr oeddynt wedi'i ragweld ar y cychwyn. Yr unig fwrdd iechyd i weld cynnydd oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Gofal brys ac argyfwng


Ym mis Hydref 2018, dyrannodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyllid ar gyfer y gaeaf ynghynt nag o'r blaen, gan roi cymorth ychwanegol o £39m i sefydliadau lleol yn seiliedig ar gasgliadau'r adolygiad a gynhaliwyd ar aeaf 2017/18 ac adborth a gafwyd gan glinigwyr. Mae Ffigur 2 yn dangos dyraniad y cyllid hwn.

Ymhellach, ym mis Chwefror 2019 rhoddwyd buddsoddiad ychwanegol o hyd at £4m i gynorthwyo mentrau a fyddai'n ychwanegu gwerth, yn gwella

profiad cleifion, yn gwella canlyniadau clinigol ac yn cefnogi llesiant staff trwy'r gaeaf.

Cynhaliodd yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol adolygiad i weld sut y mae'r buddsoddiad hwn wedi'i ddyrannu'n lleol, er mwyn gweld pa wersi y gellir eu dysgu ar gyfer gaeafau'r dyfodol. Mae hwn ar gael ar gais gan yr Uned.

Ffigur 2: Dyraniad cyllid cyflawni ar gyfer y gaeaf (£39m)



Cynlluniau peilot darparu ar gyfer y gaeaf: wedi'u comisiynu'n genedlaethol a'u cyflawni'n lleol

Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r pum blaenoriaeth ar gyfer y gaeaf, dyrannodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyllid ar gyfer ychydig o brosiectau a gomisiynwyd yn genedlaethol ac a gyflawnwyd yn lleol. Y bwriad oedd cynorthwyo timau lleol i gyflawni'r pum blaenoriaeth trwy brofi modelau gofal newydd, yn unol â 'Cymru Iachach', er mwyn gwella profiad cleifion, llesiant y staff, a gwerth a chanlyniadau clinigol.

Llesiant mewn Adrannau Argyfwng a Dychwelyd Adref yn ddiogel – gwasanaeth a gyflwynwyd ar y cyd â'r Groes Goch Brydeinig

Cafodd y gwasanaeth Llesiant mewn Adrannau Argyfwng a Dychwelyd Adref yn ddiogel ei dreialu ar draws saith o safleoedd Adrannau Argyfwng ledled Cymru dros gyfnod y gaeaf. Cychwynnodd cynllun peilot y gaeaf yng nghanol mis Rhagfyr 2018 a daeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

Diben y peilot oedd cynorthwyo cleifion a'u teuluoedd mewn Adrannau Argyfwng, cludo cleifion perthnasol yn ôl gartref, eu helpu i ailgynefino trwy brynu bwyd, ymweld â hwy drachefn, a'u cysylltu â gwasanaethau cymunedol.

Cafodd 35,757 o gleifion eu cynorthwyo yn ystod y gaeaf, ac o blith y rhain cynorthwywyd 591 o gleifion i ailgynefino yn eu cartrefi. Roedd yn gynllun hynod boblogaidd ymhlith cleifion a staff. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y Gwerthusiad o Gynllun 2018/19 y Groes Goch Brydeinig ar Wella a Rhyddhau â Chymorth mewn Adrannau Argyfwng yn <http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/407/opendoc/498556>



Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru – Cynllun peilot ymateb i gwympiadau

Darganfu'r adolygiad annibynnol dan arweiniad clinigwyr o alwadau i wasanaeth Ambiwllans Cymru sydd wedi'u categorioedd fel rhai Ambr ('yr Adolygiad Ambr') bod achosion o bobl wedi cwmpo ymhlith y tri phrif reswm dros alwadau yn y categori Ambr ac yn gyfrifol am 14% o holl alwadau'r categori Ambr

Y gaeaf diwethaf, dyrannwyd £150,000 i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ar gyfer prosiect cydweithredol i ymateb i gwympiadau a oedd yn cynnwys St John Cymru Wales. Daeth y Gwasanaeth Ymateb Cynorthwyr Cwympiadau i rym yn llawn ar 1 Rhagfyr 2018 a'i brif amcan oedd gwella profiad y claf a oedd wedi cwmpo, a oedd heb anaf neu â mân anafiadau, gan sicrhau ei fod yn derbyn ymateb prydlon at atal yr angen i fynd i'r ysbyty'n ddiangen.

Roedd chwe uned Cynorthwyr Cwympiadau yn gweithredu 12 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos

ledled ardaloedd byrddau iechyd Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf Morgannwg, Hywel Dda, Aneurin Bevan a Bae Abertawe fel rhan o gynllun peilot dros gyfnod y gaeaf, er mwyn mynychu amrywiaeth o alwadau categorïau Ambr a Gwyrdd.

Rhwng 1 Hydref 2018 a 31 Mawrth 2019, ymatebodd Cynorthwyr Cwympiadau i 1776 o alwadau yn ymwneud â chwympiadau neu alwadau lles eraill, gan ryddhau adnoddau ambiwlansys i fynychu galwadau blaenoriaeth uwch. O'r rhain, ni fu'n rhaid i 65% o'r cleifion fynd i'r ysbyty, yn dilyn atgyfeiriad i feysydd iechyd neu ofal cymdeithasol eraill neu gau'r achos yn y lleoliad yn dilyn triniaeth.

Yr amser ymateb ar gyfartaledd ar ôl dyrannu oedd 24 munud a threuliodd y Cynorthwyr Cwympiadau awr a 27 munud ar gyfartaledd yn y lleoliad yn cynnal asesiadau, atgyfeiriadau, helpu'r claf i godi o'r llawr a gwneud yn siŵr bod ganddo bopeth oedd ei angen i aros gartref yn ddiogel.

Darparu cyfarpar codi wedi'i llenwi ag aer ar gyfer cartrefi gofal yng Nghymru

Y gaeaf diwethaf, rhoddwyd 591 o gynhyrchion codi 'wedi'u llenwi ag aer' i gartrefi gofal fel y gellid cynorthwyo pobl a oedd wedi cwmpo, ynghyd â pheccynnau hyfforddi ar gyfer staff cartrefi gofal.

Roedd disgwyl i'r ddarpariaeth wella profiad preswylwyr cartrefi gofal sydd wedi cwmpo, ond nad ydynt wedi cael anaf, gyda llai o oedi diangen cyn ymateb, gan alluogi pobl hŷn ac eiddil i ailgynefino'n gyflymach. Roedd disgwyl iddi leihau nifer yr adnoddau ambiwlans sy'n cael eu hanfon i gartrefi gofal hefyd, a lleihau cludo cleifion i adrannau damweiniau ac achosion brys, gan leihau'r perygl o niwed i bobl hŷn, eiddil sydd mewn mwy o berygl o gael eu derbyn ac aros yn hir yn yr ysbyty, a all achosi niwed.

Ar ôl gosod y cyfarpar hwn, cymerwyd sampl o 300 o gartrefi rhwng Ionawr a Mawrth 2019 a gwelwyd bod:

- lleihad o 1,000 o oriau ambiwlansys o gymharu ag Ionawr – Mawrth 2018
- 72% o gartrefi gofal a oedd wedi cofnodi cwympiadau wedi defnyddio ISTUMBLE
- o blith y galwadau a gofnodwyd, dim ond 28% o'r achosion a arweiniodd at alw ambiwlans.

O blith y digwyddiadau hyn, dim ond un preswlydd a gofnodwyd fel bod yn orbryderus, gyda'r lleill yn gyfforddus (39%), yn hapus (15%) neu'n ddiglyffro (35%).

Cyflwynwyd y cynllun 'Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach' ar y cyd â Gofal a Thrwsio Cymru

Cafodd cynllun peilot *Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach* ar gyfer y gaeaf ei roi ar waith mewn deg o ardaloedd yng Nghymru, rhwng Ionawr 2019 a 31 Mawrth 2019. Nod y cynllun peilot oedd ceisio lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal yn ogystal â lleihau cyfraddau derbyn ac aildderbyn, trwy gael gweithwyr achosion dynodedig mewn ysbytai i fynd rownd wardiau er mwyn dod o hyd i gleifion a fyddai'n elwa ar gael addasu eu cartrefi a rhoi atebion ar waith yn ddi-oed.

Yn ystod y cynllun peilot cafwyd **626 o atgyfeiriadau ysbyty, gwnaed 628 o welliannau a chwblhawyd 357 o archwiliadau cartrefi iach**. Ymhellach, cafodd y cynllun peilot adborth cadarnhaol gan gleifion a chymeradwyaeth gan staff.



Fferyllwyr yn gweithio fel rhan o dimau amlddisgyblaethol mewn Adrannau Argyfwng

Y gaeaf diwethaf treialwyd model gofal integredig newydd, gan ddilyn canllawiau'r Coleg Brenhinol Meddyginiaeth Frys (RCEM), trwy gael fferyllwyr dynodedig mewn Adrannau Argyfwng i weithio fel rhan o dimau amlddisgyblaethol i helpu i gyflwyno gofal diogel ac effeithlon i gleifion mewn Adrannau Argyfwng.

Cychwynnodd y cynllun peilot ym mis Rhagfyr 2018 a daeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Fe'i rhoddwyd ar waith mewn saith o Adrannau Argyfwng. Mewn wythnos arferol, cafodd 540 o gleifion eu gweld a'u hadolygu, roedd angen cysoni meddyginiaeth mewn 430 o achosion, roedd mwy na 660 o gleifion angen o leiaf un ymyriad gan fferylllydd – ac, o blith y rhain, roedd mwy na 570 o ymyriadau'n ymwneud â meddyginiaethau critigol.

Pwysleisiodd y cynllun peilot fanteision cael fferyllwyr wrth y drws ffrynt ar lwybr y cleifion. Roedd y manteision yn cynnwys y canlynol:

- wedi ei gwneud yn bosibl i fwy o gleifion gael y feddyginiaeth gywir cyn gynted ag y bo modd ar ôl iddynt gael eu derbyn mewn argyfwng;
- wedi arwain at ateb ymholiadau meddygol a datrys derbyniadau meddygol, wedi hwyluso i ryddhau cleifion yn gyflymach; ac
- wedi lleihau'r achosion lle y gwelir cleifion yn dod yn ôl i'r ysbyty oherwydd defnydd aneffeithiol o feddyginiaeth.

Cafodd y cynllun peilot adborth cadarnhaol gan gleifion a staff Adrannau Argyfwng. Yn dilyn adolygiad o'r cynllun peilot, mae Bwrdd y NPUC wedi argymhell y dylai pob Bwrdd lechyd Lleol gyflwyno'r gwasanaeth.

Ymestyn mynediad at wasanaethau meddygon teulu

Arweiniodd cyllid dynodedig at gynorthwyo i gynllunio a gweithredu dwy astudiaeth beilot i ystyried dulliau a allai liniaru effeithiau 'y tu allan i oriau', a'u cyflawni yn ystod gaeaf 2018/19. Canolbwyntiodd astudiaeth beilot 1 ar bractisau unigol, a chanolbwyntiodd astudiaeth beilot 2 ar glystyrau'n gweithio ar y cyd. Archwiliodd yr astudiaethau peilot hyn ffyrdd newydd ac arloesol o gynyddu capasiti clinigol i gynorthwyo anghenion gofal brys lleol yn ystod cyfnodau penodol pan fo gwasanaethau y tu allan i oriau'n gorfod delio â mwy nag a ragwelwyd o alw.

Mae'r casgliadau allweddol yn awgrymu y gallai'r dulliau a roddwyd ar waith yn ystod yr astudiaeth hon arwain at wella ansawdd gofal yn sylweddol. Roedd diffyg seilwaith neu brofiad blaenorol yn y maes yn golygu bod Hyrwyddwyr y Cynlluniau Peilot yn paratoi'r ffordd ar gyfer ffyrdd newydd o weithio. Roedd egni, cymhelliant a brwdfrydedd y cyfranogwyr yn profi bod y dulliau'n ddichonadwy. Nodir y cryfderau lu, yn ogystal â'r rhwystrau, yn yr adroddiad gwerthuso.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen archwilio cyfleoedd pellach i ymdrin â chwmpas ehangach o wasanaethau er mwyn gwella gofal sylfaenol brys ar gyfer 2019/20. I'r perwyl hwn, cynigir y dylai Byrddau Iechyd adeiladu ar sylfeini Cynllun Peilot 2 wrth gynllunio ar gyfer gaeaf 2019/20.

Canolfannau Gofal Brys Iechyd Meddwl – ICAN

Mae canolfan gofal brys iechyd meddwl ICAN wedi'i sefydlu mewn tri ysbyty aciwt yng Ngogledd Cymru, i helpu i gwrdd â'r galw am ofal iechyd meddwl heb ei drefnu. Mae pob canolfan ar wahân, ond yn agos at yr Adran Argyfwng, a chânt eu staffio gan gonsortiw m o sefydliadau'r trydydd sector. Rhoddwyd y canolfannau ar waith fesul cam o fis Rhagfyr 2018.

Nod gwasanaeth ICAN yw cynnig cyfle i oedolion mewn trallod meddyliol neu emosiynol siarad am eu problemau gyda gwasanaeth cymorth eraill er mwyn iddynt allu bwrw'u bol, a chaiff nifer eu cyfeirio at sefydliadau eraill, yn aml yn y trydydd sector, i gael cymorth ac arweiniad. Rhwng Ionawr ac Ebrill 2019 darparodd canolfannau ICAN gymorth i 474 o gleientiaid, gyda hyd at 190 o wirfoddolwyr mewn tair canolfan, ac maent wedi cael adborth cadarnhaol gan gleifion.

Ar sail data sy'n datblygu ac adborth cadarnhaol, ehangwyd y cynllun peilot am bedwar mis arall, gyda chefnogaeth cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Y prif themâu ar gyfer gaeaf 2019/20

Cynllunio ar gyfer gaeaf 2019/20

Mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer gaeaf 2019/20 ar droed yn lleol ac yn genedlaethol. Ar 25 Mehefin 2019 cynhaliwyd gweithdy amlasiantaeth cenedlaethol i ddarparu ar gyfer y gaeaf, lle y bu modd i arweinwyr systemau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol lleol drafod y blaenoriaethau ar gyfer gaeaf 2019/20.

Mae themâu allweddol ar gyfer gaeaf 19/20 wedi'u pennu

Mae meysydd allweddol y dylid eu hystyried ar gyfer gaeaf 2019/20 wedi'u pennu trwy adolygu blaenoriaethau a roddwyd ar waith yn ystod y gaeaf diwethaf a thrwy gynnal trafodaethau ar y system gyfan yn y gweithdy cenedlaethol i ddarparu ar gyfer y gaeaf a gynhaliwyd ym mis Mehefin. Dyma'r meysydd allweddol:

- I. **Cadernid gofal sylfaenol y tu allan i oriau** – er enghraifft, defnyddio adnoddau ychwanegol, fel parafeddygon ac ymarferwyr iechyd meddwl, i gynorthwyo pobl a chanddynt anghenion brys i aros gartref yn ddiogel ac osgoi gorfod mynd i'r ysbyty neu gael eu derbyn i'r ysbyty'n ddiangen.
- II. **Gwneud y gorau o weithio traws-sefydliadol** – adeiladu ar ddefnydd gwell o sefydliadau'r trydydd sector i ychwanegu capasiti ar draws y system, a nodi cyfleoedd i wella'r rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol, gofal eilaidd a gofal cymdeithasol.

III. Osgoi cludo a derbyn pobl i'r ysbyty'n

ddiangen – nodi cyfleoedd i reoli'r galw'n well a chyfeirio cleifion sydd wedi cysylltu â'r gwasanaeth ambiwlans at y gwasanaeth sy'n briodol i'w hanghenion.

IV. Rhyddhau i asesu/adfer

– Gan gyd-fynd â phrosiect y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu, a roddir ar waith gan Uned Gyflawni GIG Cymru, dylai pob Bwrdd Iechyd geisio rhoi gwasanaeth Rhyddhau i Asesu/Adfer ar waith ar gyfer Gaeaf 2019/20.

V. Capasiti 'cam i lawr'

– er enghraifft, gall pob ardal bwrdd iechyd greu dadansoddiad o'r galw a'r capasiti mewn perthynas â Gwlâu Cam i Fyny/Cam i Lawr, a gall Awdurdodau Lleol/Byrddau Iechyd Lleol gomisiynu ar y cyd y capasiti sy'n angenrheidiol i gynnal y garfan hon o gleifion.

VI. Canolbwyntio ar y llwybr anadlol

– strategaethau ataliol; rheoli pobl yn y gymuned; a rheoli pobl mewn ysbytai aciwt.

VII. Canolbwyntio ar eiddilwch

– nodi camau ar gyfer cynorthwyo pobl hŷn ac eiddil i aros yn y gymuned a 'throi'n ôl' wrth y drws ffrynt er mwyn osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty'n ddiangen.



Gofynnwyd i systemau iechyd a gofal cymdeithasol ystyried y blaenoriaethau uchod wrth lywio'u cynlluniau cyflawni integredig ar gyfer y gaeaf sydd i ddod.

Yn ystod y misoedd nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau i baratoi ar gyfer y gaeaf.

Mae defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn ystod y gaeaf diwethaf, a'r gaeafau blaenorol, yn hollbwysig o ran cyflwyno'r gwelliannau cynaliadwy y dymunwn eu gweld a cheisio sicrhau'r canlyniadau a'r profiadau gorau i bobl yn ystod cyfnod a fydd, yn ddi-os, yn llawn her unwaith eto.